

Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd

Crynodeb o'r Cyfarfod

16 Rhagfyr 2019

Ystafell L, Neuadd y Ddinas, Heol Gerddi'r Orsedd, Parc Cathays, CF10 3ND.

Yn bresennol:

Adrian Field	Gavin Allen	Lucy Squire
Andy Warnock	Gerwyn Evans	Michael Garvey
Antwn Owen-Hicks	Guto Brychan	Nick Saunders
Bethan Elfyn	Hannah Jenkins	Phil Sheeran
Y Cynghorydd Huw Thomas	Heather Brown	Ruth Cayford
Y Cynghorydd Peter	Helia Phoenix	Sarah Hemsley-Cole
Bradbury	Jon Fox	Shain Shapiro
Daniel Minty	Joe Jones	Tumi Williams

Gwylwyr

Dave Harris – Cyfathrebu, Cyngor Caerdydd	Lauren Aldridge – Swyddog Cymorth Projectau, Cyngor Caerdydd	Jonathan Day – Rheolwr Gweithredol ar gyfer Buddsoddi a Thwristiaeth
--	--	--

Croeso - y Cynghorydd Huw Thomas, Cadeirydd Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd ac Arweinydd Cyngor Caerdydd	
<ul style="list-style-type: none"> Croesawodd y Cynghorydd Thomas yr aelodau newydd o'r Bwrdd Cerddoriaeth (y Bwrdd), gan eu cyflwyno hefyd. Amlinellodd y Cynghorydd Thomas mai'r Ymgyrch Achubwch Stryd Womanby oedd yr ysgogiad i baratoi Adroddiad Sound Diplomacy sydd wedi arwain at sefydlu'r Bwrdd. Nodwyd y byddai llawer o'r argymhellion yn astudiaeth Sound Diplomacy yn dibynnu ar gydweithio a chyfarwyddyd gan y sector ac felly bod angen sefydlu'r Bwrdd. 	
Rôl Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd - Jonathan Day, Cyngor Caerdydd, Datblygu Economaidd.	
<ul style="list-style-type: none"> Darparodd Jonathan drosolwg o Gylch Gorchwyl y Bwrdd. Nodwyd y byddai disgwyl i Aelodau lynu wrth Egwyddorion Nolan, a pharchu barn a hyder Aelodau'r Bwrdd. Nodwyd y byddai angen cofnodi unrhyw ddatganiadau o fuddiant. Nodwyd y byddai crynodeb o nodiadau'r cyfarfodydd yn cael ei wneud yn gyhoeddus hefyd. 	<p>CAM GWEITHREDU: FFURFLEN DATGANIAD I'W DOSBARTHU.</p> <p>CAM GWEITHREDU: FFURFLEN CRYNODEB O'R CYFARFOD I'W DOSBARTHU.</p>
Adroddiad Sound Diplomacy - Shain Shapiro, Llywydd Sound Diplomacy	
<ul style="list-style-type: none"> Rhoddodd Shane drosolwg o adroddiad Sound Diplomacy. Cydnabuwyd bod prif argymhelliad - i sefydlu'r Bwrdd - wedi ei gyflawni. Pwysig ystyried rôl y Swyddog Cerddoriaeth. Blaenoriaeth bellach yw cefnogi mynediad at gyfleoedd ariannol i bob sefydliad. 	

<ul style="list-style-type: none"> Nodwyd ei bod yn bwysig i'r Bwrdd ganolbwyntio ar nifer o weithgareddau allweddol – mewn manau eraill mae byrddau cerddoriaeth wedi methu wrth geisio mynd i'r afael â gormod o faterion ar yr un pryd. 	
Ymateb i'r adroddiad – Jonathan Day, Cyngor Caerdydd, Datblygu Economaidd.	
<ul style="list-style-type: none"> Ystyriodd y Bwrdd yr argymhellion yn adroddiad Sound Diplomacy. Mae prif faterion a godwyd i'w hystyried yn gychwynnol yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Problemau parcio - yn benodol mynediad i lleoliadau ar gyfer perfformwyr a'r effaith ar y lleoliadau o ganlyniad. Trwyddedu - ystyried sut y gellir gwneud penderfyniadau cyson a'u lleadaenu wrth lynu at ddyletswyddau statudol gwasanaethau cyhoeddus. Swyddog Cerddoriaeth - beth fydd y rôl a sut y gellir ei hariannu? Hyrwyddo a datblygu'r farchnad - sut gallwn ni hyrwyddo'r sector a chodi niferoedd mewn cynulleidfaoedd yng Nghaerdydd? 	<p>CAM GWEITHREDU: SEFYDLU GRŴP GORCHWYL A GORFFEN AR BARCIO</p> <p>CAM GWEITHREDU: SEFYDLU FFORWM DIOGELWCH CERDDORIAETH FYW</p> <p>CAM GWEITHREDU: IS-GRŴP I GWMPASU ADNODDAU I GEFNOGI SWYDD SWYDDOG CERDDORIAETH</p> <p>CAM GWEITHREDU: GRŴP GORCHWYL A GORFFEN I EDRYCH AR HYRWYDDO CAERDYDD FEL DINAS GERDDORIAETH</p> <p>CAM GWEITHREDU: IS-GRŴP I EDRYCH AR ADDYSG GERDDOROL</p>
Digwyddiad Arwyddocaol - Ruth Cayford, Rheolwr y Diwydiannau Creadigol a Diwylliant, Cyngor Caerdydd	
<ul style="list-style-type: none"> Cyflwynodd Ruth drosolwg o'r digwyddiad arwyddocaol arfaethedig. Nodwyd bod uchelgais hirdymor i sefydlu digwyddiad sy'n arddangos talent leol, yn ogystal â dod â thalent orau'r byd i Gaerdydd. Bydd y digwyddiad yn cwmpasu llawer o'r gweithgareddau presennol dan un brand ymbarél. Gweithredir hefyd raglen wirfoddoli sylweddol. Mae Cyngor Caerdydd wedi gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru ac yn aros am gadarnhad. 	<p>CAM GWEITHREDU: DIWEDDARU'R BWRDD AR Y CYNNYDD</p>
Diweddariad Cymru Greadigol – Gerwyn Evans, Cymru Greadigol, Llywodraeth Cymru	
<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddodd Gerwyn y bydd Cymru Greadigol yn cael ei lansio ar 29 Ionawr 2020 gydag adran fewnol newydd yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys meysydd megis sgrin, teledu a cherddoriaeth. Caiff cronfa ei sefydlu ar gyfer lleoliadau ar lawr gwlad ym mis Ionawr Mae diddordeb mewn creu Hyb Cerddoriaeth 	
Eitemau Agenda i'r Dyfodol	
<ul style="list-style-type: none"> Nodwyd y byddai'r Papur Gwyn Trafnidiaeth yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod Bwrdd yn y dyfodol. 	
Unrhyw fater arall	
<ul style="list-style-type: none"> Gofynnwyd am sefydlu grŵp e-byst Gofynnwyd am gyfeiriad e-bost er mwyn i ymholiadau gael eu sefydlu 	<p>CAM GWEITHREDU: SEFYDLU GRŴP E-BYST A CHYFEIRIAD E-</p>

	BOST CYHOEDDUS AR GYFER YMHOLIADAU
Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf	
<ul style="list-style-type: none">Dydd Llun 24 Chwefror 15:00 – 16:30, Ystafell Farchnata, Castell Caerdydd. CF103RB	